



Comisiynydd
Cenedlaethau'r
Dyfodol
Cymru

Future
Generations
Commissioner
for Wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r
Dyfodol Cymru

Tramshed Tech, Stryd Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH

Future Generations
Commissioner for Wales

Tramshed Tech, Pendyris Street
Caerdydd, CF11 6BH

Trwy E-bost

9fed o Fedi 2025

Annwyl Huw,

Parthed: Grŵp Her Sero Net 2035

Rydym yn ysgrifennu i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ers i Grŵp Her Sero Net Cymru 2035 gyhoeddi ei gyfres o saith adroddiad flwyddyn yn ôl.

Wedi'i gomisiynu gan arweinwyr Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru drwy Gytundeb Cydweithredu 2021, mae'r argymhellion a wneir yn yr adroddiadau hyn wedi'u hanelu at adnewyddu a chyflymu dull Cymru o gyflawni sero net.

Yn ei adroddiad ar Bedwaredd Gyllideb Carbon Cymru ym mis Mai eleni, amlinellodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd sut yr oedd y Grŵp Her wedi datblygu nifer o lwybrau gweithredu polisi, gan nodi dulliau a allai helpu i gyflawni Sero Net yn gynharach na 2050.

Gan fod amser yn hanfodol ar gyfer effeithiolrwydd yr argymhellion a wnaed gan y grŵp arbenigol, rydym yn disgwyl gweld camau gweithredu clir i'w datblygu o dan Lywodraeth bresennol Cymru.

Yn eich datganiad, a wnaed ym mis Medi 2024, dywedoch y byddai Llywodraeth bresennol Cymru yn cytuno ar y gyllideb garbon nesaf yn ystod 2025 ac wrth wneud hynny y byddai'n ystyried y cynigion yn ofalus, ac rydym yn eu croesawu. Dywedoch, os oes ffyrdd o gyflymu gweithredu ar yr hinsawdd a fyddai hefyd yn cyflawni ar draws pob dimensiwn o lesiant, amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, y dylem eu dilyn.

Wrth i ni agosáu at flwyddyn ar ôl cyhoeddi'r adroddiadau, hoffem wybod i ba raddau y mae'r argymhellion a wnaed gan Grŵp Her Sero Net 2035:

- Eisoes wedi llywio llunio polisiâu neu gyflawni polisiâu yng Nghymru,
- Yn llywio'r broses o osod targedau ar gyfer cyllideb carbon 4 (2031-35) i'r Senedd gytuno arni eleni, ar y cyd â chynghor y Pwyllgor Newid Hinsawdd, a
- Yn llywio cynnydd cynnar, er enghraifft ymgysylltu â rhanddeiliaid, ar y cynllun sero net nesaf i Gymru gyrraedd cyllideb carbon 3 (2026-30) gan gydnabod y bydd hyn yn gyfrifoldeb i Lywodraeth nesaf Cymru i'w gyhoeddi.

Y bwriad yw ailgynnull Grŵp Her Sero Net 2035 yr hydref hwn. Bydd hwn yn gyfle i adolygu beth sydd wedi newid yn y 12 mis ers eu cyhoeddi, pa effaith y mae'r adroddiadau wedi'i chael a beth y gellir ei wneud i wneud cynnydd cyflymach.



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

**Comisiynydd Cenedlaethau'r
Dyfodol Cymru**
Tramshed Tech, Stryd Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH

**Future Generations
Commissioner for Wales**
Tramshed Tech, Pendyris Street
Caerdydd, CF11 6BH

Fel rhan o ymrwymiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i weithio'n agored, bydd y llythyr hwn yn cael ei gyhoeddi ar 16 Medi.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r llythyr hwn erbyn diwedd mis Hydref cyn ailgynnull y grŵp hwn.

Byddem hefyd yn ddiolchgar am gyfle i gyfarfod i drafod yr ohebiaeth hon ar amser addas a chyfleus yr Hydref hwn.

Yn gywir iawn,

Jane Davidson

Cadeirydd, Grŵp Her Net Sero 2035



Grŵp Herio Cymru
Sero Net 2035
Wales **Net Zero 2035**
Challenge Group

Derek Walker

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru
**Future
Generations**
Commissioner
for Wales